**D.Y.M.A**

# Adroddiad Hunan Arfarnu Ysgol Gynradd Groes-wen

**Mae'r adroddiad hunanarfarnu wedi cael ei seilio yn erbyn fframwaith newydd ESTYN 2024. Mae'r ffurf yn dilyn y cysyniad o werthuso cyrhaeddiad yr ysgol yn erbyn y fframwaith gan ddefnyddio;**

**D - Dathlu llwyddiant (Gwyrdd)**

**Y - Ystyried gwerthuso'n bellach er mwyn cyrraedd safonau dathlu (Melyn)**

**M - Myfyrio ar yr arfer orau a ffocysu ar y llefydd i wella (Oren)**

**A - Angen gwelliant barhaus (Coch)**

**(Saesneg: C - Celebrate E - Evaluate further to reach the standards required to celebrate R - Reflect on best practice but focus on areas for improvement I - Continued Improvement)**

# Cyd-destun yr Ysgol:

**Mae'r ysgol wedi sefydlu mewn ardal newydd sbon yng Nghaerdydd, Plasdŵr. Mewn gwirionedd, y maent yn mynd i barhau adeiladu tai a chymwysterau am flynyddoedd i ddod. Prif bwrpas yr ysgol yw gwasanaethu teuluoedd Plasdŵr.**

**Agorwyd yr ysgol ar Fedi 7fed 2023. Mi oedd 48 o blant wedi ymuno gyda ni ond erbyn diwedd y flwyddyn mae hyn wedi cynyddu i 62. Erbyn diwedd ein hail flwyddyn, mae hyn wedi cynyddu i 139. Ym mis Medi rydym yn disgwyl dros 170 plentyn gan gynnwys 68 Meithrin.**

**Dyma'r ysgol cyntaf o'r fath yng Nghymru. Mae 2 ffrwd gan yr ysgol. Un Ffrwd Cymraeg ac un ffrwd Iaith Ddeuol. Mae'r model iaith Ddeuol yn debyg i Fodel B yng Ngwlad y Basg. Ar sail categori, mae'r ysgol felly yng nghtegori 2 a 3 yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

**Mae'r model Iaith Ddeuol wedi seilio ar gynnwys a nid amser felly bydd 50% o wersi yn y Gymraeg a 50% yn Saesneg. Ar sail y meysydd dysgu a phrofiad, bydd y Dyniaethau a Chelfyddydau Mynegiannol yn y Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn Saesneg. Bydd Iechyd a Lles yn y 2 iaith. Wrth gwrs bydd gwersi Iaith yn y Gymraeg a saesneg.**

**Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol fodd bynnag yr ydym eisiau ein disgyblion i ddathlu pob iaith ac i syrthio mewn cariad gydag ieithoedd. Mi fyddech chi'n glywed Saesneg ar y safle ond fe gewch chi siarad Cymraeg gyda'r disgyblion a mi fydd pawb yn deall.**

**Mae 4 dosbarth yn yr ysgol yn ystod 2024 - 2025;**
**Lili Wen Fach (Meithrin) - Bore Iaith Ddeuol**
**Prynhawn Cymraeg**
**Ffion - Dosbarth cymysg Ffrwd Cymraeg (Derbyn - Flwyddyn 2)**
**Fioled - Dosbarth Derbyn Ffrwd Iaith Ddeuol.**
**Rhosyn – Dosbarth Cymysg Ffrwd iaith ddeuol (Blwyddyn 1 – Flwyddyn 2)**

**PYDd – 7 Plentyn 5%**

**ADY – 6.47% Cofrestr**
**7.19% Monitro**
**Cyfanswm: 14%**
**Ymyrraethau: 16%**

**Global majority – 7.19% (Niferoedd yr ysgol wedi codi sydd yn effeithio'r canran).**
**EAL – 7 plentyn sef 5%. Mae 9 iaith i gyd yn yr ysgol.**

| Maes Arolygu + Llinyn | D | Y | M | A | Sylwadau | Tystiolaeth | CGY |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Addysgu a dysgu** | | | | | **Gan ystyried yr holl ddatganiadau, teimlwyd ein bod angen gwneud ychydig mwy o werthuso arferau orau a llefydd i wella er mwyn cyrraedd y safon i ddathlu ein holl waith.** | **Bydd angen:**<br>• Cyfarfodydd tîm yn cynnwys trafodaethau ar arferion llwyddiannus yn gyson.<br>• Adolygiadau cynlluniau gwersi a chynlluniau dysgu unigol yn rheolaidd.<br>• Arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol gyda sylwadau adeiladol yn aml.<br>• Adborth gan ddisgyblion a rhieni ar brofiadau dysgu yn dymhorol. | |
| **….yn sicrhau bod eu haddysgu;**<br>**yn symud dysgu yn ei flaen ar y cyflymdra cywir, ac yn cyflwyno'r lefel briodol o her a chymorth i bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y Canllaw i arolygwyr – Beth rydym yn ei arolygu 8 disgyblion hynny ag ADY a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt** | | | | | **Mewn llawer o'r gwersi, mae rhan mwyafrif o ddisgyblion yn dangos bod y dysgu yn symud ymlaen ar gyflymdra cywir gyda lefel her briodol. Mae aelod o staff wedi gweld mwy o her wrth ymdrin gyda dosbarth cymysg ond mae'r cynnydd i weld yn y gwaith dosbarth yn enwedig llyfrau disgyblion.**<br><br>**Mae cynlluniau pob athro yn dangos yr ystyriaeth priodol i anghenion yr unigolyn ac yn ymateb i unrhyw ganllawiau i gefnogi disgyblion. Mae'r plant sydd ar y cofrestr PYDd yn gwneud cynnydd yn eu medrau. Mae'r staff wedi addasu ein ffordd o werthuso cynlluniau dosbarth ac yr ydym wedi gweld effaith gadarnhaol ar sail y newidiadau.**<br><br>**Mae gwybodaeth tracio'r ysgol yn rhoi darlun amrywiol ar adegau e.e. dydy canlyniadau profion Cenedlaethol ddim yn adlewyrchu ein gwybodaeth gwaelodlin neu waith u disgyblion.**<br><br>**Gan ddarparu hyfforddiant addas mae'r ysgol wedi derbyn y wobr IQM sydd yn cydnabod ein hymdrechion i ymateb i anghenion pob unigolyn.**<br><br>**Mae'r ysgol wedi dechrau rhannu arferion addysgu effeithiol yn fewnol drwy gyfarfodydd Adran a sesiynau datblygiad proffesiynol. Mae hyn wedi arwain at fwy o gysondeb a gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth ar draws y dosbarthiadau.** | **Cynlluniau athrawon**<br><br>**Tystiolaeth Monitro**<br><br>**Gwersi dosbarth.**<br><br>**Llyfrau disgyblion.**<br><br>**Tystiolaeth gwaith disgyblion.**<br><br>**Tric a chlic**<br><br>**Little Wandle**<br><br>**Handwriting Motorway**<br><br>**Profion Cenedlaethol**<br><br>**Taenlen Asesu**<br><br>**Adroddiad IQM** | **CGY2 – Prosesau ysgol** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yn dangos disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion | | | | | Mae'r athrawon wedi cadw golwg ofalus ar ddisgwyliadau uchel gan gynnwys y math o dystiolaeth i ddangos effaith y disgwyliadau h.y. llyfrau disgyblion. Mae rhan fwyaf o lyfrau yn dangos y disgwyliadau uchel. Mae ein prosesau monitro a llwybrau dysgu wedi atgyfnerthu barn yr ysgol. Fodd bynnag, fel ysgol roeddem yn siomedig gyda chanlyniadau'r profion darllen cenedlaethol ac efallai mae hyn wedi awgrymu ein bod ni angen bod yn llawer mwy uchelgeisiol yn y maes allweddol ac yn sicr bod angen i ni annog annibyniaeth ein dysgwyr.<br><br>Yn dilyn y canlyniadau darllen yn y profion Cenedlaethol, rydym wedi adolygu ein dulliau addysgu llythrennedd, gan gynnwys defnyddio mwy o ddarllen deallusol a thrafodaethau testun i godi safonau. Mae un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol i sicrhau dulliau mwy uchelgeisiol a heriol ac mae angen iddi rhannu nodiadau. Er hyn, rydym hefyd yn cydnabod bod rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd yn eu darllen wrth ffocysu ar dystiolaeth y gwaelodlin. | Gwaith a llyfrau disgyblion.<br><br>Cynlluniau athrawon.<br><br>Cofnodion monitro.<br><br>Profion cenedlaethol<br><br>Taenlen Asesu | CG Y 2 -<br>Prosesau asesu ac addysgeg – Ffocws: Gosod her |
| yn defnyddio holi ac adborth i gefnogi cynnydd disgyblion | | | | | Mae llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd ar lawr y dosbarth a rhan fwyaf wrth edrych ar brofion Cenedlaethol mathemateg a Rhifedd fodd bynnag rydym angen edrych ar y ffordd rydym yn dysgu darllen, sydd yn cynnwys sut mae'r staff yn holi cwestiynau. Nid oes digon o gynnydd i weld yn y canlyniadau profion Cenedlaethol ond fel rydym wedi awgrymu, dydy hyn ddim yn adlewyrchu'r holl dystiolaeth.<br><br>Mae ein prosesau adborth yn mynd o nerth i nerth yn unol a pholisi marcio yr ysgol. Gyda staff newydd yn ymuno, ein prif nod bydd cysondeb ar draws pob dosbarth.<br><br>Rydym yn defnyddio amrywiaeth o adborth gan gynnwys ar lafar, yn ysgrifenedig neu mewn trafodaeth fel cyfoedion wrth edrych ar waith ei gilydd. | Gwaith a llyfrau disgyblion.<br><br>Cynlluniau athrawon. | CG Y 2 -<br>Prosesau asesu ac addysgeg Ffocws - Cysondeb |
| yn ymateb i ddysgu disgyblion yn ystod gwersi a thros gyfnod, ac yn addasu yn unol â hynny | | | | | Mae gallu staff i ymateb i anghenion dysgwyr yn ystod gwersi yn sicr wedi gwella. Maent gyda'r hyder i ofyn am farn disgyblion yn ystod y gwersi ac yn gwneud pob ymdrech i addasu fel bo angen i sirhau bod rhan fwyaf o ddisgyblion (ar y lleiaf) wedi ymgysylltu'n effeithiol gyda'r wers.<br><br>Mae ffocws ar egwyddorion Froebelian yn sicr yn cael yr effaith rydym yn dymuno yn y Feithrin a bydd yr ysgol yn trosglwyddo hyn i'r Derbyn yn y flwyddyn academaidd newydd. | Gwaith a llyfrau disgyblion.<br><br>Cynlluniau athrawon.<br><br>Gwersi Lili Wen fach<br><br>Gwobr IQM | |
| yn helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w gwella, a datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol | | | | | Mae rhan fwyaf o'm disgyblion yn y dosbarth Meithrin. Er hyn yr ydym yn sicrhau ein bod yn adnabod cryfderau a llefydd i wella pob unigolyn. Yn y dosbarthiadau cymysg, mae'r disgyblion yn derbyn targedau, sydd yn cael eu rhannu gyda | Targedau disgyblion.<br><br>Adroddiadau disgyblion. | CGY 1, 2 a 3 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhieni ac sydd yn creu ffocws i drafodaethau nosweithiau rhieni ac wrth gwrs yr adroddiad. Er hyn, mae hi'n bwysig i barhau i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u cryfderau. Mae gan bob plentyn proffil un tudalen sydd yn sicrhau ein bod ni fel ysgol yn deall barn pob plentyn.<br><br>Defnyddio arsylwadau a chwarae dan arweiniad yn y feithrin: Trwy chwarae dan arweiniad ac arsylwadau wedi'u cofnodi yn ein 'Arsylwadau Wythnosau 1af', rydym yn gallu nodi'n fanwl gryfderau'r plant a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r wybodaeth hon yn llywio'r cynllunio ac yn cael ei rannu gyda rhieni. | Gwobr IQM | |
| yn gwneud yr amgylchedd dysgu yn ysgogol a difyr | | | | | Mae'r amgylchedd dosbarth yn gryfder yr ysgol gyda phob dosbarth yn creu naws gweithgar ac heddychlon. Wrth edrych ar ein cofnodion monitro, rydym yn gallu gweld bod y staff wedi derbyn argymhellion a wedi ymateb i beth oeddent yn dweud. Wrth gynyddu, rydym angen sicrhau bod pob dosbarth yn dilyn yr un diwylliant ac ethos sydd eisoes yn bodoli.<br><br>Mae'r amgylcheddau dysgu yn annog chwilfrydedd a chreadigrwydd, gyda defnydd effeithiol o ardalau dysgu, adnoddau hygyrch, a deunyddiau sy'n ysgogi meddwl. Mae'r disgyblion yn defnyddio'r gofod yn annibynnol ac yn dangos balchder yn eu hamgylchedd.<br><br>Rydym yn gweithio tuag at sicrhau cysondeb o ran safonau amgylcheddol ar draws yr ysgol, gan gynnwys arddangosfeydd sy'n adlewyrchu dysgu byw, llais y disgybl, a chynnydd unigol.<br><br>Yn ogystal, rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar wella'r ardaloedd awyr agored i sicrhau eu bod yr un mor ysgogol a difyr â'r ystafelloedd dosbarth. | Polisi amgylchedd y dosbarth.<br><br>Dosbarthiadau.<br><br>Tystiolaeth monitro. | |
| yn gweddu'n dda i i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion | | | | | Dyma un o gryfderau'r ysgol. Rydym yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn ac yn ymateb pan fod angen gan addasu'r addysgu. Mae'r adroddiad IQM yn cydnabod ein hymdrechion i ymateb i bob plentyn er mwyn creu naws cynhwysol.<br>Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag athrawon arbenigol y Sir a'r blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion.<br><br>Yn unol ag egwyddorion Froebel, rydym yn gwerthfawrogi pob plentyn fel unigolyn, ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy broffiliau un tudalen, chwarae ystyrlon, a pherthnasoedd cadarnhaol gyda staff. Mae'r amgylchedd dysgu yn cael ei deilwra i gefnogi datblygiad holistaidd, gan | EDUKEY - Map darpariaeth<br><br>IDP<br><br>Cynlluniau Athrawon.<br><br>Tystiolaeth monitro.<br><br>Adroddiadau Google Forms.<br><br>Gwobr IQM<br><br>Adroddiad IQM | Her bydd newid yn y CADY |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gynnwys lles emosiynol, corfforol ac ieithyddol. | Adroddiad Gwobr Arian RRS | |
| yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd | | | | | Mae'r ardaloedd datblygiad parhaus yn galluogi disgyblion i weithio'n annibynnol gan ffocysu ar fedrau dysgu blaenorol fodd bynnag yr ydym angen parhau i ddatblygu cyfleoedd i weithio'n annibynnol oherwydd bod y cofnodion monitro yn dangos bod hyn yn amrywiol ac felly nid yw'n gyson o hyd. Mae hefyd yn tynnu sylw at allu staff ategol i gefnogi hyn ac ar ôl y monitro, rydym wedi mireinio ein prosesau. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi cardiau cwestiynau ar gyfer staff ategol i'w defnyddio o fewn ardaloedd y dosbarth, er mwyn hybu meddwl annibynnol a sgiliau cydweithio ymhlith y disgyblion.<br><br>Yn y dosbarth Meithrin, mae gwaith annibynnol a chydweithredol yn gryfder amlwg. Mae'r ardaloedd datblygiad parhaus wedi'u cynllunio'n ofalus i annog plant i archwilio, datrys problemau a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd naturiol drwy chwarae. Mae'r plant yn dangos lefel dda o annibyniaeth wrth ddewis adnoddau, cwblhau tasgau, ac wrth gydweithio gyda'u cyfoedion. Mae'r arferion hyn yn adlewyrchu egwyddorion Froebelian, gan feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherthyn. | Tystiolaeth monitro. | CGY 2 - Prosesau asesu ac addysgeg Ffocws – Annibyniaeth. |
| yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, lle bo'n briodol | | | | | Er bod ein disgyblion yn ifanc, mae llawer ohonynt yn fodlon i gynnig syniadau am y dysgu. Llais y plentyn I'w weld yng nghynlluniau wythnosol y staff. Mae Senedd yr ysgol wedi sefydlu eleni ac er bod y disgyblion yn ifanc, mae angen canmol ymroddiad y Senedd i wella bywyd yr ysgol. Mae ganddynt gynrychiolwyr ECO, Dreigiau Cymraeg, Chwaraeon a Hawliau Plant. | Cynllunio cysyniadau / thema<br><br>Gwaith y Senedd. | |
| yn defnyddio staff ychwanegol i gefnogi dysgu disgyblion lle bo'n briodol | | | | | Ein staff ychwanegol sydd yn ein galluogi ni i ymateb i anghenion yr unigolyn. Rydym angen apwyntio staff newydd felly nid oes modd gwneud hyn yn wyrdd ond mae'r cydweithio rhwng staff dysgu a staff yn effeithiol iawn.<br><br>Mae Staff ategol yn derbyn Datblygiad Proffesiynol i sicrhau bod y gallu ganddynt i gefnogi ein disgyblion gan gynnwys ELSA, Handwritig Motorway, Language Links Team Teach a mwy. | Tystiolaeth Monitro<br><br>Cynnydd disgyblion<br><br>Ymateb staff ategol<br><br>Hyfforddiant Staff<br><br>EDUKEY | |
| **yn deall beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu a pham trwy chyflwyno cwricwlwm sydd:**<br><br>yn darparu ehangder a dyfnder addas o ddysgu ar gyfer disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad | | | | | Mae datblygu'r cwricwlwm yn sicr yn gwaith ar waith. Rydym yn cydweithio'n agos gyda chlwstwr Plasmawr ac yn ffocysu ar brofiadau i ddisgyblion. Yn ogystal rydym wedi cynllunio ein cysyniadau er mwyn cael tegwch ar draws y meysydd datblygu.<br><br>Yn y dosbarth Meithrin, mae egwyddorion Froebelian yn sail i'r ddarpariaeth, gan gynnwys pwyslais ar berthnasoedd, chwarae ystyrlon, a datblygiad holistaidd. Mae'r dull hwn wedi profi'n effeithiol wrth feithrin chwilfrydedd a sgiliau dysgu annibynnol. Rydym bellach yn trosglwyddo'r dull hwn i'r dosbarth Derbyn, gan sicrhau dilyniant a chysondeb yn y | Cynlluniau wythnosol a chynlluniau tymor canol.<br><br>Mapiau cynnydd.<br><br>Tystiolaeth a llyfrau gwaith. | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | profiadau dysgu cynnar. | | |
| yn datblygu dealltwriaeth o hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach | | | | | Mae ein cwricwlwm gyda ffocws gadarn ar yr ardal leol ond yn amlwg oherwydd oed yr ysgol mi fydd hyn yn parhau fel gwaith ar waith. Oherwydd natur yr ardal leol, bydd y wybodaeth yn parhau i ddatblygu gyda esblygiad yr ardal. Mae'r disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth o dai ac ati ac yr ydym yn trafod yr ardal yn aml. Er hyn, rydym wedi gwneud gwaith ar Gaerdydd gan gynnwys Windrush fel un esiampl yn unig. Felly wrth ffocysu ar Gaerdydd rydym yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r ardal leol. Mae ein ffocws ar Gymru a thraddodiadau Cymru yn rhan allweddol o'm waith e.e. dathlu Dydd Gŵyl Dewi, deall Calennig, straeon Cymraeg a mwy.<br><br>Mae disgyblion yn cael profiadau amrywiol i werthfawrogi eu treftadaeth a'u diwilliant Cymreig megis cymryd rhan yn yr Eisteddfod a chlwb yr Urdd. | Cynlluniau athrawon.<br><br>Llyfrau a thystiolaeth disgyblion.<br><br>Clwb yr Urdd | CGY 1 – Parhau datblygu hyn |
| yn ysbrydoli disgyblion ac yn codi eu dyheadau yn galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth cymdeithasau trwy ddod i gysylltiad â hanesion ddoe a heddiw eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, gan gwmpasu cymunedau gwahanol yn ogystal â storïau pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn benodol | | | | | Fel yr uchod, mae hyn yn waith parhaus a ffocws ein ffordd ymlaen. Angen sicrhau dyddiadur blynyddol gyda digwyddiadau amlddiwylliannol. Angen mapio straeon amlddiwylliannol o fewn cynlluniau tymor canol.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn cymorth gan rieni i ddeall sut i ddathlu Eid Mubarak. Rydym wedi dysgu am hanes pobl duon Caerdydd ac yn sicrhau bod ein hadnoddau ysgol yn dathlu amrywiaeth.<br><br>Amrywiaeth o lyfrau ar gael ar gyfer y disgyblion yn y llyfrgelloedd yn y dosbarth sy'n cynnwys cymeriadau aml hiliol. | Cynlluniau athrawon.<br><br>Dyddiadur digwyddiadau.<br><br>Gwaith disgyblion | CGY – Parhau i ddatblygu |
| yn cefnogi datblygiad creadigol ac artistig disgyblion | | | | | Mae pob plentyn yn y dosbarthiadau cymysg yn derbyn gwersi ffidil o dan arweiniad gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r fro. Wrth ddathlu doniau, mae'r gwaith creadigol y disgyblion wedi cymryd rôl blaenllaw ar ddiwedd tymor yr Hydref ac yn ystod y Gwanwyn gydag amrywiaeth o weithgareddau megis gwehyddu, dawnsio gwerin a mwy. Enillodd yr ysgol gwobrau Celf a Chrefft Eisteddfod Rhanbarthol yr Urdd. Perfformiadau lleol megis Tafwyl, dathliad Nadolig yn Llandaf ac wrth gwrs cystadlu yn yr Eisteddfod. Yn y dosbarth Meithrin, mae egwyddorion Froebelian yn sail i'r gwaith creadigol, gan gynnwys defnyddio deunyddiau naturiol, mynegiant personol drwy chwarae, a gwerthfawrogi'r broses greadigol yn ogystal â'r canlyniad. Mae'r dull hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Derbyn, gan feithrin hyder, hunanfynegiant a mwynhad o'r celfyddydau o oedran cynnar. | Celf a Chrefft yr Urdd<br><br>Perfformiadau disgyblion e.e. Nadolig, Tafwyl<br><br>Gwersi Ffidil<br><br>Y Feithrin | |
| yn cefnogi datblygiad ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) | | | | | Mae lles yn rhan allweddol o waith yr ysgol ac mae ein ffocws ar foeseg a gwerthoedd i weld. Rydym yn sicrhau ein bod yn cydnabod crefyddau'r ardal leol ac felly wedi trafod dathliadau crefyddol megis Nadolig, Pasg a Ramadan / Eid Mubarak. | Gwobr arian hawliau plant | CGY - CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Angen sicrhau dyddiadur blynyddol gyda digwyddiadau amlddiwylliannol. Rydym angen parhau i fapio straeon amlddiwylliannol o fewn cynlluniau tymor canol. Mae hawliau plant yn allweddol at waith yr ysgol. Dyma galon ein hethos ac ym mhob gwasanaeth ar Ddydd Llun rydym yn atgoffa'r disgyblion o hawl y Mis sydd hefyd yn cael ei rhannu gyda rhieni yn y Cylchlythyr. Rydym yn trafod amrywiaeth, yr hawl i grefydd, yr hawl i fod yn iach a llawer mwy. | | |
| yn meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus tuag at amrywiaeth (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) | | | | | Rydym yn dathlu amrywiaeth fel rhan o waith yr ysgol gan gynnwys yn ystod gwasanaethau. Rydym wedi cyfeirio at sut mae teuluoedd yn gallu amrywio. Yn ogystal, sut mae plant yn wahanol e.e. gyda ffocws ar gefnogi disgyblion i ddysgu am anghenion disgyblion eraill. Fodd bynnag, rydym angen sicrhau bod polisi ARCh yn ei lle a gwethredu ar gynlluniau newydd Plasmawr.<br><br>Mae cynlluniau fframwaith ACRh ar waith mewn rhai dosbarthiadau mewn modd syml oherwydd oerdan a natur y disgyblion. Aelod o staff yn ran o gynllunio datblygiad ACRh gyda chlwstwr Plasmawr ac yn cael ei gyflwyno i'r staff ar gyfer mis Medi. Polisi ACRh wedi ei gyflwyno i'r ysgol. | Wythnos dathlu Niwrowahaniaeth<br><br>Gwasanaeth a gwersi am deuluoedd<br><br>Gweithgareddau NSPCC | CGY 1 – Ffocws ARCh |
| yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd, amrywiaeth perthnasoedd, rhywioldeb gan gynnwys bywyd pobl LHDTC+ ac yn archwilio themâu tegwch, hawliau ac eiriolaeth rhywedd (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) | | | | | Er bod ein disgyblion yn ifanc, rydym wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion (a rhieni) am bwysigrwydd hawliau, tegwch a chydraddoldeb fodd bynnag, rydym angen rhoi Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar waith. Mae'r ysgol wedi ennill y wobr hawliau plant ac eisoes wedi debyn gwobr IQM am fod yn ysgol gynhwysol sydd yn sicrhau tegwch i boob plentyn. Rydym hefyd wedi ymuno gyda gwaith HALO fel ffordd o ddathlu amrywiaeth. | Cynlluniau / Mapiau ARCh<br><br>Hawliau Plant - gwobr arian<br><br>IQM | |
| yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, gan gynnwys eu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) | | | | | Mae bywyd iach a bod yn iach wedi cael ffocws eleni ac yr ydym yn cyfeirio at hyn yn gyson o fewn ein gwersi a gwasanaethau, fodd bynnag yr ydym angen rhoi mwy o drefn ar ein cynllun Addysg Cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn cydfynd gyda ffocws yr ysgol ar hawliau plant. Mae'r disgyblion yn cydweithio gyda'r Urdd i gael clwb chwaraeon unwaith yr wythnos, Cardiff City Foundation – cynnal gwersi pêl-droed, Tim Criced Morgannwg – gwersi Criced, dawnsio gwerin – cefnogaeth Plasmawr.<br><br>Ar sail, ARCh, rydym angen datblygu hyn ym mhellach.<br><br>Gwaith NSPCC Cadwa'n Saff, Cadwa'n ddiogel yn atgyfnerthu diogelwch disgyblion mewn ffordd addas i'w hoedran | Wythnos Iach<br><br>Teithio Llesol<br><br>Cynlluniau gwersi<br><br>Gweithgareddau gyda phartneriaethau<br><br>Gwaith hawliau Plant - gwobr arian | CGY 1 - ARCh |
| yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw a deall effaith y dewisiadau hyn | | | | | Mae hyn yn rhan mawr o drafodaethau dosbarth er bod ein disgyblion yn ifanc. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i wneud penderfyniad iach. Mae'r ysgol fel yr ydym wedi awgrymu, yn rhoi ffocws gadarn ar hawliau plant ac y mae'r disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn rhan o'r ymgyrch. Mae'r ysgol wedi derbyn y wobr arian | Wythnos Iach<br><br>Teithio Llesol<br><br>Cynlluniau gwersi | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | RRS. | Gwaith hawliau Plant<br><br>Adroddiad RRS<br><br>Monitro llyfrau<br><br>Gwaith y dosbarth | |
| **yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn raddol yn ystod gwersi a thros gyfnod fel eu bod:**<br><br>yn caffael y medrau angenrheidiol mewn gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu a rhifedd, ac hefyd y sgiliau digidol i gefnogi eu gwaith a gwneud cynnydd | | | | | Mae'r ysgol yn cydweithio gyda Chlwstwr Plasmawr er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i ddisgyblion i gaffael ar y medrau angenrheidiol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd da yn y tystiolaeth a gasglwyd gan gynnwys llyfrau dosbarth yn eu medrau Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu fodd bynnag mae'r profion Cenedlaethol darllen yn rhoi darlun fwy amrywiol.<br><br>Mae esiamplau o sgiliau llythrennedd ar waith wrth edrych ar cysyniadau. Mae amrywiaeth o ysgrifennu ond efallai bydd angen ffocysu ar ysgrifennu estynedig gyda'r disgyblion Cam Cynnydd 2.<br><br>Mae ffocws amlwg wedi bod ar ddatblygu medrau Mathemateg a Rhifedd eleni a mae rhan fwyaf o ddisgyblion wrth edrych ar y profion Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd priodol ac yn sicr mae cynnydd da i weld gan ran fwyaf o ddisgyblion wrth edrych ar ein tystiolaeth ar lawr y dosbarth.<br><br>Mae sawl esiampl o rifedd i weld yn y gwaith cysyniadau.<br><br>Gall ein sgiliau digidol parhau i ddatblygu ond mae'r disgyblion yn gwneud defnydd addas o feddalwedd sydd ar gael iddynt ac wedi dechrau dysgu am godio. Mae gwaith digidol yn sicr yn cefnogi gwaith cysyniad y disgyblion. | Darllen – Rydym yn defnyddio profion Cenedlaethol, gwaith Little Wandle a tric a Chlic i helpu ni i gyrraedd at ddealltwriaeth o gynnydd y disgyblion.<br><br>Llafar – Rydym yn datblygu prosesau Llais 21 a wedi cymryd rhan i ddatblygu portffolio Plasmawr.<br><br>Ysgrifennu – Llyfrau disgyblion + ail ymweld ar dasgiau<br><br>Maths a Rhifedd – Profion Cenedlaethol, profion White Rose + llyfrau a thystiolaeth disgyblion.<br><br>Digidol – Tystiolaeth disgyblion<br><br>Cynlluniau gwersi | CGY 1 a 2. |
| yn cymhwyso'u medrau ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm | | | | | Fel yr uchod, mae hyn yn sicr yn waith ar waith gyda sawl esiampl o arfer orau ond y mae hi'n bwysig i anelu at gysondeb.<br><br>Ar sail y medrau, mae cynnydd rhan fwyaf o ddisgyblion i weld yn glir yn eu medrau Mathemateg a rhifedd gan fonitro llyfrau Mathemateg, monitro gwersi a dadansoddi'r profion Cenedlaethol. | Profion Cenedlaethol<br><br>Gwaith disgyblion – llyfrau a thystiolaeth eraill.<br><br>Taenlen asesu. | CGY1 + 2- Darllen + Digidol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Wrth ystyried Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu, mae'r darlun yn fwy gymhleth. Mae'r profion darllen yn dangos yn glir yn y Gymraeg a Saesneg ein bod angen ffocysu ar hyn fodd bynnag wrth edrych ar lawr y dosbarth mae llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd da e.e. wrth dractio gwaith ffoneg Tric a Chlic neu gynllun Little Wandle gyda disgyblion Iaith Ddeuol.<br><br>Ar sail medrau digidol, mae disgyblion wedi cychwyn ar waith codio, yn gwneud defnydd effeithiol o raglenni sydd ar gael ar HWB megis J2E ac yn datblygu yn aradeg fodd bynnag rydym yn teimlo bod angen rhoi ffocws gadarn ar hyn i sicrhau bod gan bob plentyn yr un cyfleoedd ar draws y dosbarthiadau. | | |
| yn meddu ar y medrau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol i'w paratoi ar gyfer bywyd yn ddiweddarach | | | | | Mae ein partneriaeth gyda Chlwb Criced Morgannwg a Chlwb pêl-droed yr adar gleision yn sicr wedi cefnogi ein gwaith. Mae'r Urdd yn cynnal clwb Chwaraeon yn wythnosol. Mae ein ffocws ar gefnogi lles yn rhan allweddol o lwyddiant yr ysgol. Rydym yn cefnogi disgyblion gyda'i emosiynau a mae aelod o staff wedi cael ei hyfforddi i arwain ELSA ac un ar Talkabout. Rydym yn cynnal sesiynau trafod sydd yn edrych ar gefnogi disgyblion mewn sawl ffordd gan gynnwys yn gorfforol, cymdeithasol ac emosiynol. | Partneriaethau ehangach yr ysgol<br><br>Gwasanaethau<br><br>Disgyblion<br><br>Sesiynau ELSA (pan fod angen) | |
| yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg o'u gwahanol fannau cychwyn mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol | | | | | Model newydd i Gymru yw ein hysgol ni. Mae'r model iaith ddeuol (er ei bod yn dyddiau cynnar) yn dangos cynnydd arbennig ym medrau Cymraeg y disgyblion. maent yn deall yn dda iawn ac felly yn gallu siarad ond ar adegau, angen eu hatgoffa i wneud hyn. Mae plant y ffrwd Cymraeg yn dangos cynnydd da. Un peth sydd angen tynnu sylw at yw'r ffaith ein bod yn dilyn addysgeg caffael iaith ac felly hyn sydd yn amlwg yn tynnu sylw at batrymau iaith yr ysgol. Nid oes cywiro plant Iaith Ddeuol am siarad Saesneg ac yn amlwg wrth i'r 2 ffrwd cymysgu, mae disgyblion yn tueddi siarad Saesneg fodd bynnag gyda mwy o ymarfer, yr ydym yn dechrau clywed mwy a mwy o'r Iaith Gymraeg. Perfformiadau o safon wedi eu cyflwyno yn y Gymraeg. Mae'r ysgol wedi cychwyn ar waith y Siarter iaith. | Continwwm Iaith<br><br>cynllunio athrawon<br><br>Iaith y digyblion<br><br>Gwaelodlin yr ysgol | |
| **yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, fel eu bod:**<br><br>yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau dysgu | | | | | Mae'r tystiolaeth monitro yn dangos agwedd gadarnhaol iawn gan bron pob plentyn yn yr ysgol. | Tystiolaeth monitro. | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau | | | | | Mae angen ystyried hyn mewn cyd-destun oedran ein disgyblion. Mae'n allweddol ein bod yn rhoi heriau i ddisgyblion sydd yn eu hannog i oresgyn anawsterau. Disgyblion yn ymwybodol o sut i fynd i nol adnoddau i'w cynorthwyo gyda'r gwaith. | Cynlluniau athrawon.<br><br>Gwaith disgyblion.<br><br>Tystiolaeth monitro.<br><br>Sgwrs gyda disgyblion. | CGY - annibyniaeth |
| yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag oedolion a'u cyfoedion | | | | | Mae perthynas arbennig yn bodoli rhwng rhan fwyaf o'r disgyblion a staff yr ysgol a'i cyfoedion. | Tystiolaeth monitro. | |
| yn ymateb yn gadarnhaol ac yn bwrpasol i adborth | | | | | Mae llawer o ddisgyblion yn dangos eu bod yn ymateb yn dda i adborth wrth ystyried eu hoedran. Mae adborth yn gallu bod ar lafar wedi ysgrifennu neu oddi wrth ei gilydd. Mae rhaid bod staff yn dilyn y polisi marcio a bod cysondeb ar draws yr ysgol.<br><br>Adborth llafar yn cael ei roi yn reolaidd ar lawr y dosbarth a disgyblion yn ymateb yn syth i'r adborth yma. | Tystiolaeth monitro.<br><br>Gwaith disgyblion | |
| **2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad** | | | | | Mae'r ysgol wedi ennill y wobr IQM. Mae'r ysgol hefyd wedi gweithio ar holiadur SHR er mae nifer bach o blant oedd medru.<br>Mae'r ysgol yn gymwys a Fframwaith Dull Ysgol Gyfan Iechyd a Lles Meddyliol .<br>Mae'r ysgol wedi derbyn y wobr arian RRS. | Adroddiad ac Hunan Arfarnu IQM<br><br>Fframwaith DYGFLLEM<br><br>Adroddiad Asesiad RRS Arian | |
| **yn creu ac yn cynnal diwylliant o ddiogelu gan gynnwys dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant fel bod disgyblion:**<br><br>yn ddiogel a saff<br>yn cael eu parchu a'u trin yn deg o yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu<br>yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol | | | | | Mae holiadur plant, rhieni a staff yn dangos bod y disgyblion i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cyflawni awdit diogelu Caerdydd. Does dim achos o fwlio wedi codi yn yr ysgol eto (mae angen deall bod yr ysgol gyda niferoedd bach ar hyn o bryd). Mae'r disgyblion yn hollol saff yn yr ysgol ac yr ydym yn gwneud ein gorau glas i wneud pob plentyn yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol. yr ydym yn ymateb yn syth i broblemau diogelu ac yn dilyn canllawiau Sir Caerdydd. Mae'r awdit diogelu yn cyfeirio at hyfforddiant diogelu syth wedi digwydd. Mae 4 DSP yn yr ysgol. Mae ein ffocws ar hawliau plant yn atgyfnerthu ein gwaith i gefnogi cadw disgyblion yn ddiogel. Rydym yn cydweithio gyda NSPCC a'r PCSO's lleol. | Holiaduron<br><br>My Concern<br><br>Gwaith hawliau plant<br><br>Adroddiad IQM | |
| **Yn sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn** | | | | | Mae ein presenoldeb yn dda (95.3% wrth ysgrifennu) ond mae angen ystyried taw niferoedd bach o blant sydd gyda ni ar hyn o bryd. Mae'r polisi yn ei lle. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddog presenoldeb Plasmawr a gyda ei chefnogaeth hi | Polisi Presenoldeb a phrydlondeb<br><br>Data SIMS | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **rheolaidd, er enghraifft trwy:**<br><br>hyrwyddo a monitro presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb grwpiau penodol | | | | | rydym yn gallu gweithio'n agos gyda'r teuluoedd petai bod problem yn godi. Yr allwedd at ein gwaith yw cyfathrebu effeithiol. | Perthynas gyda AWO Plasmawr | |
| herio absenoliaeth barhaus | | | | | Rydym yn herio presenoldeb a phrydlondeb yn ein cylchlythyr, wrth gael proses o anfon llythyr i deuluoedd sydd yn peri gofid ar sail presenoldeb. Rydym yn gweithio'n agos ac yn briodol gyda'r swyddog presenoldeb Clwstwr Plasmawr.<br><br>Mae cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda rhieni os yw presenoldeb plentyn yn gostwng yn isel er mwyn ceisio datrys a chynorthwyo'r teulupoedd.<br><br>Ein presenoldeb yw 94.8% | Cylchlythyr<br><br>Perthynas gyda AWO Plasmawr | |
| gweithio mewn partneriaeth, er enghraifft â gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu ac asiantaethau eraill | | | | | Rydym eisoes wedi cydweithio'n effeithiol iawn gydag gwasanaeth cymdeithasol ac yn parhau i'w wneud. Rydym wedi cynnal gwersi rhianta Caerdydd ar safle'r ysgol, yn gweithio'n agos gyda Cardiff Adult Learning ac wedi cefnogi'r adran ADY y Sir i gynnal cyfarfodydd i gefnogi rhieni sydd wedi derbyn diagnosis i'w blentyn am awtistiaeth. | My Concern<br><br>Cyfarfodydd Blaenoriaethu<br><br>Edukey | |
| yn cydlynu cymorth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol | | | | | Mae ein gwaith ADY yn dangos er ein bod yn ein dyddiau cynnar yr ymroddiad sydd gennym fel ysgol i fod yn ysgol cynhwysol, sydd yn ymateb i anghenion pob plentyn ac yn rhoi'r gofal gorau posib iddynt.<br><br>Mae rhan fwyaf o ddisgyblion ar y cofrestr yn dangos cynnydd ond efallai cynnydd ar lefel nhw h.y. camau bach.<br><br>Rydym yn pontio yn effeithiol gydag ysgolion sydd yn derbyn ein plant neu ysgolion sydd yn anfon plant at yr ysgol. Yn aml mae hyn yn golygu cynllun pontio gyda meithrinfeydd sydd yn gallu golygu ymweliad a chartrefi darpar disgyblion. | Cynlluniau athrawon<br><br>Edukey<br><br>Ymyraethau<br><br>Cynnydd disgyblion ADY<br><br>Cyfarfodydd Blaenoriaethu athrawon arbenigol<br><br>Gwobr IQM<br><br>Gwaith pontio | |
| yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol, ac yn cofnodi, yn adrodd ac yn ymateb yn gywir i bob math o fwlio ac aflonyddu | | | | | Oherwydd ein niferoedd bach ac ethos yr ysgol, hyd yn hyn, does dim achos o fwlian wedi codi. Rydym yn cadw cofnod o ddigwyddiadau ar MY CONCERN gan ddefnyddio TAG i gydnabod unrhyw batrymau sydd yn codi. Os oes consyrn am ymddygiad, rydym yn delio gydag hyn yn syth. Rydym wedi troi at staff ychwanegol i gefnogi disgyblion gydag anghenion dwys iawn a oedd yn gweld yn anodd i setlo ac yn gallu achosi niwed iddyn nhw ei hun ac eraill.<br>Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Team Teach. | My Concern<br><br>Team Teach<br><br>Edu Key | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yn sicrhau bod disgyblion sydd â hanes o gael eu gwahardd a'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn dangos ymddygiad gwell ac agweddau gwell at ddysgu | | | | | **Nid yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd.** | | |
| yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol, yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau | | | | | Rydym ar gychwyn y daith oherwydd y niferoedd bach. Rydym yn tueddi i holi plant Derbyn, Blwyddyn 1, 2 a 3 i gyd am syniadau ond yn sicr rydym yn bwriadu datblygu Senedd yr Ysgol ymhellach.<br><br>Er ein bod ar y cychwyn mae ein gwaith wedi cael eu cydnabod gan asesiad RRS Arian. | Llais y Plant<br><br>Adroddiad RRS Gwobr Arian | CGY3 |
| yn rhoi cyngor effeithiol a diduedd i ddisgyblion yn ymwneud â'r camau nesaf yn eu datblygiad, er enghraifft o ran: o cyfleoedd, cyfrifoldebau, a phrofiadau bywyd oedolyn o eu cyfnod pontio i'r cam dysgu nesaf | | | | | Rydym yn sicr ar gychwyn ein taith. Mae perthynas effeithiol iawn gennym gydag ysgolion sydd yn derbyn ein plant ar ol bod yn y Meithrin gyda ni ond megis cychwyn yw'r gwaith. Fodd bynnag yr ydym hyd yn oed yn ymweld a phlant yn eu cartrefi.<br><br>Mae rhieni wedi ymateb yn bositif i adroddiadau diwedd y tymor gan dynnu sylw at y ffaith maent yn gwybod sut i gefnogi disgyblion i symud ymlaen. | Pontio rhwng meithrinfeydd gyda ni ac o'r dosbarth Meithrin i ysgolion eraill. | |
| **3. Arwain a gwella**<br><br>**Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:** | | | | | Mae llawer iawn o bethau i'w dathlu gan gynnwys ein partneriaethau, ein Corff Llywodraethu a sut rydym yn defnyddio adnoddau sydd gennym er mwyn gwella deilliannau disgyblion. Beth sydd yn ein hatal at ddweud dathlu yn unig wrth ffaith ein bod angen profi cynnal gwelliant parhaus.<br><br>Gwobr IQM - yn cydnabod arweiniad yr ysgol.<br><br>Gwobr Arian RRS - yn cydnabod arweiniad yr ysgol. | Adroddiad IQM<br><br>Adroddiad RRS Gwobr Arian | |
| yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd, yn dysgu ac yn gwneud cynnydd | | | | | Mae'r ysgol yn gallu dangos cynnydd y disgyblion gan edrych ar brofion Tric a Chlic, cynnydd Little Wandle, cynnydd yn erbyn y gwaelodlin neu arsylwadau dosbarth (Lili Wen Fach). Mae ein blwyddyn 2 a 3 wedi sefyll y profion Cenedlaethol ac ar y cyfan ma bron pawb o flwyddyn 3 yn dangos cynnydd priodol neu'n well ond mae blwyddyn 2 yn fwy amrywiol. Gweler nodiadau o dan CA1.<br><br>Mae ein taenlen EXCEL yn ein helpu i dracio cynnydd a chyrhaeddiad.<br><br>Rydym wedi datblygu prosesau tracio mewnol ein hun ar ôl ceisio defnyddio meddalwedd TYFU nad oedd mor effeithiol gyda systemau Caerdydd. | Data mewnol yr ysgol<br><br>Gwaith y disgyblion | |
| yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles pob un o'r disgyblion | | | | | Mae ein dogfennaeth gosod cyfeiriad strategol yn cefnogi ein hymgyrch fel ysgol newydd i sicrhau bod ein diwylliant ac ethos i gefnogi cynnydd a lles y disgyblion gan gynnwys pob plentyn ar hyd y daith. Mae'r ethos yr ysgol yn allweddol at ein | CGY<br><br>Gosod Cyfeiriad Strategol | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | llwyddiant cynnar. Ein nod yw cynnwys pob plentyn ac mae adroddiad IQM yn adlewyrchu hyn. | Gwariant grantiau<br><br>Gwobr IQM | |
| yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, gan gynnwys mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol | | | | | Fel ysgol newydd yr ydym wedi llwyddo i osod yr holl ddogfennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio gyda chanllawiau statudol e.e. polisiau, asesiadau risg, gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch, cynllun gwella ayyb | CGY<br><br>Gosod Cyfeiriad Strategol | |
| yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwella ansawdd addysgu a datblygu'r Gymraeg | | | | | Mae ein cynllun gwella yn cydnabod blaenoriaethau Cenedlaethol megis gwreiddio prosesau ADY, gosod Cwricwlwm yn ei lle ond un peth sydd yn hollol allweddol ac unigryw yw model iaith yr ysgol. Rydym yn ysgol 2 ffrwd, un ffrwd Cymraeg ac un ffrwd iaith Ddeuol. Mae hyn yn golygu bod 50% o'r gwersi yn y Gymraeg a 50% Saesneg, gweler cyd-destun yr ysgol. Rydym eisiau plant i ddathlu defnydd o'r iaith ac i ddatblygu cariad at yr iaith ac mewn gwirionedd i ddathlu pob iaith. | Gweledigaeth yr ysgol<br><br>CGY<br><br>Gosod Cyfeiriad Strategol | |
| yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn gwella ansawdd addysgu, yn cefnogi gwelliant ysgol ac yn arfogi pob aelod o staff i gyflawni eu rolau | | | | | Er ein bod yn ysgol newydd sydd yn golygu, doedden ni ddim wedi derbyn llawer o arian i gefnogi gwaith DPP yr ydym wedi datblygu arweinwyr;<br>Pob aelod o'r UDRh wedi cwblhau cwrs Uwch Arweinwyr. Un aelod wedi mynychu hyfforddiant CADY. 2 aelod o'r UDRh wedi mynychu cwrs tramor (Sweden) er mwyn datblygu'r ardal allanol, rydym yn cydweithio gyda phrifysgolion: Staff wedi derbyn hyfforddiant Uwch Fentor a Mentor; Staff hefyd wedi mynychu cwrs ELSA, Talkabout, agweddau Cwricwlaidd yn enwedig Mathemateg a Rhifedd; hyfforddiant asesu ar gyfer dysgu ac wrth ystyried bod aelod o staff yn ANG i gefnogi gwaith gan gynnwys sicrhau bod yr aelod o staff sydd yn ANG wedi mynychu hyfforddiant ANELU ac hyfforddiant ychwanegol. Mae'r ysgol wedi creu wefan i gofnodi ein gwaith DPP. Mae'r holl weithgareddau wedi sicrhau ein bod yn datblygu ein hunain mewn ffordd effeithiol. | Rhaglen DPP<br><br>Gwefan DPP yr ysgol | |
| yn rheoli adnoddau'r ysgol | | | | | Mae hyn yn anodd i ateb oherwydd nid oedd digon o arian mewn adnoddau dysgu mewn gwirionedd i sefydlu 2 ddosbarth, cael cyfresi darllen ac adnoddau Celf, Chwaraeon ac ati fodd bynnag yr ydym wedi gwario pob ceiniog yn y ffordd mwyaf effeithiol ac addas i sicrhau bod gan y disgyblion y profiadau sydd angen arnynt. Rydym wedi sefydlu private funds eleni. | Adnoddau'r ysgol<br><br>Tystiolaeth Monitro | |
| **Gwerthuso'r gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion a pha mor dda y mae athrawon ac** | | | | | | | |

| ymarferwyr eraill: | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella dysgu a lles disgyblion | | | | | Wrth agor yr ysgol ym Medi 23, gwnaethom ein ffocws ar gynnal diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sydd yn sicr yn canolbwyntio ar les yr unigolyn ac wrth gwrs safonau er mwyn gwella'r dysgu. | Gweledigaeth yr Ysgol<br>CGY<br>Gosod Cyfeiriad Strategol<br>Fframwaith lles<br>Gwobr IQM<br>Gwobr Arian RRS | CGY 3 IQM |
| yn gosod ac yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain | | | | | Er ein bod yn ifanc ar y daith, mae dosbarthiadau cymysg yr ysgol wedi gosod targedau uchelgeisiol i'r disgyblion. Mae ein dosbarth meithrin, Lili Wen Fach yn gosod disgwyliadau uchel i ddisgyblion nid ar sail medrau yn unig ond gwerthoedd e.e. dangos parch at eraill ac eiddo. Mae pob aelod o staff yn model rol da ac yn modelu sut mae nhw eisiau'r disgyblion i ymddwyn. Mae ein targedau Rheoli Perfformiad yn atgyfnerthu ein blaenoriaeth at osod targedau uchelgeisiol i ni ein hunain. | Gwaith y disgyblion<br>Data Mewnol<br>Tystiolaeth Monitro | |
| yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac yn ysgogi gwelliant | | | | | Mae cynllun monitro gyda ni fel ysgol ac yn sicr mae'r gwaith monitro yn rhoi darlun teg iawn gyda phwyslais ar gryfderau a meysydd i wella. Cryfder mwyaf yr ysgol sydd angen cydnabyddiaeth oedd ein gallu i sefydlu ysgol mewn amser prin iawn at bwynt mae un aelod o Lywodraethwyr wedi dweud bod yr ysgol yn teimlo fel ysgol sefydlog erbyn hyn. Mae sawl ffordd ymlaen sydd yn ymddangos yn ein cynllun gwella. Mae'r blaenoriaethau yn seiliedig ar ein gwaith hunan arfarnu ond maent hefyd yn cydnabod blaenoriaethau Cenedlaethol a blaenoriaethau yr Awdurdod Lleol. | Cynllun Monitro<br>Tystiolaeth Monitro<br>Cofnodion UDRh a Staff yr ysgol | |
| yn meddu ar hanes sefydledig o wneud gwelliannau, a'u cynnal, a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion | | | | | Mae angen ystyried hyn mewn cyd-destun ysgol newydd. Nid oes modd cyfeirio at gynnal eto ond yn sicr mae'r effaith cynnar ar ddysgu a lles rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol iawn. | | |
| yn cynllunio ac yn cyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion | | | | | Fel yr uchod:<br>Er ein bod yn ysgol newydd sydd yn golygu doedden ni ddim wedi derbyn llawer o arian i gefnogi gwaith DPP yr ydym wedi datblygu arweinwyr;<br>Un aelod wedi cwblhau cwrs Uwch Arweinwyr. Un aelod wedi mynychu hyfforddiant CADY. 2 aelod o'r UDRh wedi mynychu cwrs tramor (Sweden) er mwyn datblygu'r ardal allanol, rydym yn cydweithio gyda phrifysgolion: Staff wedi derbyn hyfforddiant Uwch Fentor a Mentor; Staff hefyd wedi mynychu cwrs ELSA, Talkabout, agweddau Cwricwlaidd yn enwedig Mathemateg a Rhifedd; hyfforddiant asesu ar gyfer dysgu ac | Rhaglen DPP<br>Gwefan DPP yr ysgol | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wrth ystyried bod aelod o staff yn ANG i gefnogi gwaith gan gynnwys sicrhau bod yr aelod o staff sydd yn ANG wedi mynychu hyfforddiant ANELU. Mae'r ysgol wedi creu wefan i gofnodi ein gwaith DPP. Mae'r holl weithgareddau wedi sicrhau ein bod yn datblygu ein hunain mewn ffordd effeithiol. | | |
| yn rheoli perfformiad staff i wella'u harfer a mynd i'r afael â thanberfformio, lle bo angen | | | | | Mae prosesau rheoli perfformiad wedi sefydlu yn yr ysgol. Rydym yn rhoi adborth wrth gynnal gweithgareddau monitro ac yn cefnogi athrawon sut i wella ac yn sicrhau bod modd derbyn cefnogaeth DPP i gefnogi llefydd i wella. | Cofnodion Rheoli Perfformiad | |
| yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill (er enghraifft gwella addysgu, tegwch, diwygio ADY, y Cwricwlwm i Gymru) | | | | | Prif iaith yr ysgol yw Cymraeg. Rydym yn dathlu'r iaith ac yn sicr rydych yn gallu mynd mewn i bob dosbarth a siarad Cymraeg ond ein nod yw magu disgyblion sydd gyda chariad at ieithoedd. Mae ein CGY yn dangos yn glir ein bod yn pwysleisio blaenoriaethau Cenedlaethol wrth sefydlu ysgol newydd. | Model yr ysgol<br><br>Gweledigaeth yr ysgol | |
| yn darparu llywodraethu effeithiol sy'n cynnig cymorth a her | | | | | Mi oedd y corff llywodraethu parhaol wedi sefydlu ym mis Tachwedd 2023 felly maent yn ifanc fel Corff. Mae'r Cadeirydd newydd yn sicr yn ffrind critigol i'r ysgol. Mae trawsdoriad o arbenigedd ar y Corff sydd wedi ein cefnogi wrth fynd ati i sefydlu e.e. mae'r pwyllgor Iechyd a Diogelwch wedi cynnal cyfarfodydd gyda chontractwyr a swyddogion y Sir i herio sefyllfaoedd sy'n codi, mae aelod o'r pwyllgor safonau iawn yn brofiadol fac mae hi wedi bod ar grwydrad dysgu, mae aelod arall o'r pwyllgor gydag arbennigedd flying start a fel athrawes ac mae hyn oll yn sicrhau ein bod yn lwcus iawn. Yn amlwg, mae hyn yn rhoi her i'r ysgol ond gyda sut gymaint o brofiad gan gynnwys is-Gadeirydd sydd gyda phrofiad helaeth fel llywodraethwraig, mae angen canmol yr ymroddiad mewn cyfnod byr iawn. | Cofnodion y Corff<br><br>Tystiolaeth Monitro | |
| yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliant yn narpariaeth yr ysgol | | | | | Mae'r ysgol yn ffodus i gael CADY profiadol iawn sydd wedi dysgu mewn ysgol arbennig Trinity Fields yng Ngaerffili. Mae hyn wedi ein galluogi i ymateb i anghenion y disgyblion yn syth maent yn ymddangos. Mae'r CADY wedi ffurfio perthynas effeithiol iawn gyda chlwstwr Plasmawr a Radur. Mae'r CADY wedi sefydlu EDUKEY fel rhan o weithdrefnau'r ysgol ac i sicrhau bod y map darpariaeth yn un cyfredol iawn. Mae un cymhorthyydd gyda chyfrifoldeb i gefnogi ymyrraethau gan gynnwys ELSA a mae'r aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant DPP trwy gydol y flwyddyn. Yn anffodus bydd y CADY yn ein gadael ym mis Medi. | Cynlluniau athrawon<br><br>Edukey<br><br>Ymyraethau<br><br>Cynnydd disgyblion ADY | |
| yn ystyried baich gwaith a lles staff ac i ba raddau y mae effaith unrhyw ofynion newydd neu ddiwygiedig ar faich gwaith eu staff eu hunain ac ar benaethiaid, arweinwyr a staff mewn lleoliadau addysg eraill | | | | | Wrth sefydlu ysgol, mae'r gwaith yn un anferthol. Nid oes modd peidio gweithio 100% er mwyn sicrhau bod pob dim yn ei lle. Cafodd hyn ei ddangos yn wych pan oedd yr ysgol wedi derbyn yr holl allweddi ar Fedi 5ed ac felly un diwrnod yn unig oedd gyda ni cyn agor ar Fedi 7fed i ddisgyblion. Rydym yn sicrhau bod y staff yn derbyn y cefnogaeth sydd angen arnynt | Gwaith staff i sefydlu ysgol newydd | CGY3 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ac y mae sawl un wedi wynebu her yn ystod y flwyddyn ac y mae'r ysgol wedi rhoi'r gefnogaeth i helpu nhw i oresgyn y heriau.<br><br>Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn i raglen cefnogaeth EDUSUPPORT sydd yn golygu am 3 mlynedd mae ganddynt mynediad at therapydd, cefnogaeth ariannol, cymorth galaru a llawer mwy.<br><br>Mae'r ysgol yn cynnal hyfforddiant arweinwyr canol i staff ysgolion Cymraeg yn y 5 Sir - Caerdydd, Y Fro, Pen-y-Bont, Merthyr a RCT gan gynnwys athrawon cynradd ac Uwchradd. Mae pwyslais mawr ar y cwrs ar les staff. | | |
| yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni, ysgolion partner, cyrff allanol a'r gymuned ehangach | | | | | Rhieni:<br>Mae ein cymuned Rhieni wedi defnyddio'r teitl 'Ffrindiau Groes-wen'. Heb waith y ffrindiau, ni fydd yr ysgol wedi cael y cyfle i ffurfio perthynas mor effeithiol a chynnig cefnogaeth yn y gymuned. Maent wedi cynnal Ffair Nadolig, Ffair Haf, Noson ffilm, Helfa wyau Pasg a mwy. Maent yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol ar ein blaenoriaethau. Mae dathlu doniau disgyblion wedi bod yn ysgubol gyda rhieni yn dod i gael blas o gynnyrch, gweithgaredd neu ddigwyddiad sydd yn dathlu gwaith y tymor. Yn ogystal mae'r Feithrin wedi cynnal sesiynau 'drop-in' i gael blas o waith y dosbarth. Mae rhieni hefyd yn rhan hanfodol o ddatblygu gardd i'r ysgol.<br><br>Redrow:<br>Fel ysgol sydd yn rhan o ardal adeiladu mae ein perthynas gyda'r adeiladwyr yn allweddol iawn OND nid o hyd yn effeithiol. Dydy sgiliau cyfathrebu'r cwmni ddim o hyd yn ein helpu. Ni yw llais Plasdwr a ni sydd yn sicrhau bod gweithgareddau yn digwydd yn yr ardal leol.<br><br>Ysgolion Partner:<br>Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac yn gadarnhaol iawn gyda Chlwstwr Plasmawr. Rydym wedi creu cysylltiad gydag Ysgol Uwchradd radur a chlwstwr Radur.<br><br>Ym mis Medi bydd yr ysgol yn rhan o CLIP yn gweithio ar asesu a thracio cynnydd. Mr Carbis bydd yn arwain y CLIP a bydd yr ysgol yn cydweithio gyda Ysgol Berllan Deg, Ysgol gwaelod y garth ac Ysgol creigiau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn ymweliad gan sawl Sir ar sail ein model newydd gan gynnwys Wrecsam, Patagonia, Lisbon, | Cylchlythyr<br><br>Cofnodion Ffrindiau Groes-wen<br>Profiadau Disgyblion<br><br>Gwaith gyda'r Prifysgolion<br><br>Cylch Meithrin ar y safle gyda Uned Drochi a Chriw Cwricwlwm Caerdydd.<br><br>Cofnodion CCD<br><br>Gwerthusiad Arweinwyr Canol.<br><br>Rhaglen y Ffederasiwn. | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Powys, Ceredigion, Merthyr ac RCT. Rydym wedi cefnogi ysgol yng Nghaerffili wrth ddylunio adeilad newydd.**<br><br>**CCD - Consortiwm canolbarth y De:**<br><br>**Mae'r ysgol yn cynnal hyfforddiant Arweinwyr Ysgol. Pennaeth yr ysgol yw Cadeirydd Ffederasiwn Ysgolion Cymraeg y Rhanbarth.**<br><br>**Mae ein partner gwella wedi bod yn rhan o lwybr yr ysgol ac yn ein herio a chefnogi ar hyd y daith.**<br><br>**Wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg a Maths eleni.**<br><br>**Mae'r ysgol wedi ffurfio perthynas da iawn gyda Phrifysgolion:**<br><br>**Met Caerdydd -**<br>**Derbyn myfyrwyr BA (Addysg)**<br>**Rhan o waith ymchwil Froebel**<br>**Rhan o waith ymchwil ar y model iaith ddeuol wedi ariannu gan Lywodraeth Cymru**<br><br>**Prifysgol Caerdydd:**<br>**Gwirio ein Continwwm Iaith**<br>**Derbyn myfyrwraig ar Classroom Experience Practice**<br><br>**Rydym hefyd wedi derbyn myfyriwr o'r Iseldiroedd.**<br><br>**Asiantaethau Caerdydd:**<br><br>**Mae'r tim Cwricwlwm Caerdydd yn llogi ystafelloedd fel swyddfeydd. maent wedi ein cefnogi wrth ffurfio Cwricwlwm ac ati.**<br><br>**Mae Uned Drochi Cynradd ar ein safle ar hyn o bryd ac mae'r Pennaeth yn cefnogi cyfeiriad strategol yr Uned. Mae'r perthynas yn un effeithiol iawn.**<br><br>**Rhianta Caerdydd:**<br><br>**Yn rhoi gwersi i rieni am rianta.**<br><br>**Cardiff Adult Learning - Hyfforddiant ar y safle**<br><br>**Cymraeg i blant**<br><br>**Gwersi Cymraeg i deuluoedd.**<br><br>**Mae'r Pennaeth yn cadeirio Deilliant 7 o GSGA Caerdydd.**<br><br>**Cylch Meithrin Groes-wen:** | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae gan yr ysgol Cylch Meithrin ar y safle sydd yn hanfodol at dwf ein niferoedd.<br><br>**Meithrinfeydd agos:**<br><br>Mae Ladybirds (Danescourt) a CWTCH (Tyllgoed) wedi bod reit ar gychwyn ein taith. Mae nhw'n cynnig wrap aroun oddi ar y safle, a does dim amheuaeth bydd hyn yn hynod o bwysig wrth i'r ysgol tyfu.<br><br>**Yr Adar Gleision a Chlwb Criced Morgannwg:**<br><br>Rydym wedi creu partneriaeth gyda'r 2 sefydliad. Mae'r plant wedi derbyn hyfforddiant ganddynt ac yn sicr y maent wedi elwa'n fawr.<br><br>**Menter Caerdydd a'r Urdd:**<br><br>Mae'r ysgol yn rhan o wledd Cymraeg a cHymreig yng Nghaerdydd sef tafwyl. Mi fydd y plant yn perfformio ar lwyfan ar Orffennaf 14eg. Mae disgyblion wedi cystadlu yn yr Urdd eisteddfod a wedi cael llwyddiant arbennig yn y Celf a Chrefft. | | |
| yn defnyddio adnoddau'r ysgol i sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth ar gyfer lles disgyblion | | | | | Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas ac effeithiol iawn o'r adnoddau sydd ar gael gan gynnwys yr adnodd dynol i wneud y gorau dros bob plentyn ac i sicrhau bod ansawdd dysgu ac addysgu. Mae ardal tu fas gan bob dosbarth ac yn sicr mae'r ffocws wedi bod ar atgyfnerthu medrau blaenorol. Mae rhieni wedi helpu gydag ambell adnodd e.e. wrth gasglu offer go-iawn ar gyfer yr ardal chwarae rôl ac mae'r cwmni adeiladu wedi rhoi ceginau mwd a gwesty trychfilod i'r ysgol. Rhieni hefyd yn cefnogi clwb garddio yn cyfrannu adnoddau. Er bod angen mwy o adnoddau arnom, yr ydym yn gwneud y defnydd gorau o beth sydd ar gael. Eleni mae'r trim trail yn sicr wedi bod yn lwyddiant arbennig. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chwmni ESP i ddatblygu'r ardal. Mae dal llawer o waith i'w wneud gyda hyd yn oed llai o arian eleni. | Adnoddau'r ysgol. | CGY 1 a 2 |
| yn defnyddio cyllid grant i wella deilliannau ar gyfer disgyblion wedi'u targedu | | | | | Canran isel o ddisgyblion PYDd sydd yn yr ysgol ac rydym yn defnyddio'r arian i sicrhau eu bod yn cael union yr un profiadau a phawb arall. Gyda'r cyllid dros ben, mae hyn yn cefnogi ymyraethau gydag un plentyn.<br><br>Ar sail y grantiau eraill, rydym wedi cydweithio'n effeithiol gyda chlwstwr Plasmawr ac eraill fel y nodwyd uchod. Doedd | Gwariant grantiau | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dim llawer o grant i gefnogi DPP fodd bynnag wnaethom ein gorau i gefnogi staff er mwyn gwella deilliannau pob plentyn yn ein gofal.<br><br>Mae'r arian grantiau wedi eu mapio. | | |